# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Agenda (SLC (3)-28-08)

**Dyddiad: 2 Rhagfyr 2008**
**Amser : 8.45am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

### Eitem 2: Offerynnau na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.

### Eitem 2.2: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC220 - Rheoliadau Deddf Plant 1989 (Cyfarwyddiadau ac Amodau Gweithgareddau Cyswllt: Cymorth Ariannol) (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 13 Tachwedd 2008. Fe'u gosodwyd ar 14 Tachwedd 2008. Yn dod i rym ar 8 Rhagfyr 2008

Mae'r Rheoliadau hyn yn galluogi talu cymorth ariannol mewn perthynas ag unigolyn y rhoddwyd gorchymyn neu gyfarwyddyd iddo i ymgymryd â gweithgaredd sy'n hybu cyswllt rhyngddo a'i blentyn os yw'r plentyn yn preswylio fel arfer yng Nghymru.

SLC221 - Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Darpariaethau Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 17 Tachwedd 2008. Fe'u gosodwyd ar 19 Tachwedd 2008. Yn dod i rym ar 11 Rhagfyr 2008

Mae paragraff 2 o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988") yn darparu bod gwerth ardrethol hereditament annomestig i'w benderfynu drwy gyfeirio at y rhent y gellir yn rhesymol ddisgwyl ei gael, yn ôl yr amcangyfrif, am osod yr hereditament o flwyddyn i flwyddyn. Yn yr achosion hynny lle na cheir tystiolaeth fwy uniongyrchol o werth rhent, mae gwerth ardrethol hereditament annomestig yn cael ei benderfynu, yn lle hynny, drwy ddatgyfalafu cyfanswm gwerth cyfalaf amcangyfrifedig yr hereditament (yr enw ar hyn yw "the contractor's basis of valuation"). Rhagnodir y cyfraddau datgyfalafu o dan baragraff 2(8) o Atodlen 6 i Ddeddf 1988. Y prif Reoliadau a wnaed o dan y pŵer hwn yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Darpariaethau Amrywiol) (Rhif 2) 1989 (fel y'u diwygiwyd) ("Rheoliadau 1989"), y rhagnodir y cyfraddau ynddynt yn Rheoliad 2. Mae Gweinidogion Cymru, wrth wneud y Rheoliadau hyn, yn diwygio, yn effeithiol o 11 Rhagfyr 2008, y cyfraddau datgyfalafu a ragnodir gan Reoliad 2 o Reoliadau 1989.

### Eitem 3: Unrhyw fater arall

### Eitem 4: Dyddiad y cyfarfod nesaf